# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 3

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH

## PENNOD 8

DELIO

*Olynu*

### 78 Mwy nag un olynydd cymwys

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo mwy nag un person yn gymwys i olynu deiliad y contract.

(2) Os yw un o'r personau yn olynydd â blaenoriaeth, mae'r olynydd â blaenoriaeth yn olynu i'r contract.

(3) Os yw dau neu ragor o'r personau yn olynwyr â blaenoriaeth, y person (neu'r personau) sy'n olynu i'r contract yw—

- (a) yr olynydd (neu'r olynwyr) â blaenoriaeth sydd wedi ei ddethol (neu eu dethol) drwy gytundeb rhwng yr olynwyr â blaenoriaeth, neu
- (b) os ydynt yn methu â chytuno (neu'n methu â hysbysu'r landlord o gytundeb) o fewn cyfnod rhesymol, pa un bynnag ohonynt y mae'r landlord yn ei ddethol.

(4) Os yw'r holl bersonau yn olynwyr wrth gefn, y person (neu'r personau) sy'n olynu i'r contract yw—

- (a) y person (neu'r personau) sydd wedi ei ddethol (neu eu dethol) drwy gytundeb rhwng yr olynwyr wrth gefn, neu
- (b) os ydynt yn methu â chytuno (neu'n methu â hysbysu'r landlord o gytundeb) o fewn cyfnod rhesymol, pa un bynnag ohonynt y mae'r landlord yn ei ddethol.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 78 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Pan fo'r landlord yn dethol o dan is-adran (3)(b), caiff olynydd â blaenoriaeth nad yw'n cael ei ddethol apelio i'r llys yn erbyn detholiad y landlord.

(6) Pan fo'r landlord yn dethol o dan is-adran (4)(b), caiff olynydd wrth gefn nad yw'n cael ei ddethol apelio i'r llys yn erbyn detholiad y landlord.

(7) Rhaid gwneud cais am apêl o dan is-adran (5) neu (6) cyn diwedd y cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn hysbysu'r person nad yw wedi ei ddethol.

(8) Rhaid i'r llys ddyfarnu'r apêl ar sail ei rinweddau (ac nid drwy adolygiad).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 78 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 78 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 78 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5